## ATODLEN 1

## SWYDDOGAETHAU CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU

**19.**—(1) Mae'r Atodlen wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Cyn paragraff 1 mewnosoder—

“**Dehongli**

**A1.** Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at gyflogeion i'r Corff yn cynnwys personau a secondiwyd i'r Corff.”

(3) Ym mharagraff 1(2), yn lle “Nid” rhodder “Yn ddarostyngedig i baragraff 1A, nid”.

(4) Ar ôl paragraff 1 mewnosoder—

“**Statws o ran gwarchodfeydd natur**

**1A.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i dir y mae gan y Corff fuddiant ynddo ac sy'n cael ei reoli fel gwarchodfa natur.

(2) At ddibenion cymhwyso unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol at y tir, mae'r Corff i'w drin fel adran o'r llywodraeth.

(3) Mae buddiant mewn tir yn cynnwys unrhyw ystâd mewn tir ac unrhyw hawl dros dir, p'un a yw'r hawl yn arferadwy yn rhinwedd y berchnogaeth ar fuddiant yn y tir ynteu yn rhinwedd trwydded neu gytundeb.”

(5) Ym mharagraff 2(1)(d), hepgorer “llai na 2 na dim”.

(6) Hepgorer paragraffau 3 a 4.

(7) Ym mharagraff 5, yn lle “baragraff 4(3) (pan fo'n gymwys) a pharagraffau” rhodder “baragraffau”.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 19 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, Paragraff 19.